# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018

Amser: 09.30 - 10.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4612

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Dyfed Alsop, Awdurdod Cyllid Cymru<br>Kathryn Bishop, Awdurdod Cyllid Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

### 2.1 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) – 10 Ionawr 2018

## 3 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 3 (Awdurdod Refeniw Cymru)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kathryn Bishop, Cadeirydd, Awdurdod Refeniw Cymru, a chan Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Refeniw Cymru ar y paratoadau ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru.

3.2 Cytunodd y Prif Weithredwr i roi nodyn i'r Pwyllgor yn nodi'r hyn y bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn ei wneud yn ystod y cyfnod hyd at 1 Ebrill 2018 i sicrhau bod gwaith y Gofrestrfa Tir ynghylch trafodiadau trawsffiniol yn cael ei gydlynu.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017: Offerynnau Statudol ym maes treth

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol ym maes treth a ganlyn, gan gytuno i gyflwyno adroddiad arnynt:

- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

- Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018

# 7 Deddf Treth Gwaredu Tirlenwi (Cymru) 2017: Offeryn Statudol ym maes treth

7.1 Trafododd y Pwyllgor Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018 a chytunodd i gyflwyno adroddiad arnynt.